Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryngwyn
# Dafen
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 8RP

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol, gymysg 11-16, a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, yw Ysgol Bryngwyn. Mae wedi'i lleoli yn Nafen, ar ochr gogledd ddwyreiniol Llanelli, ac mae disgyblion o rannau o ganol y dref ac o nifer o bentrefi cyfagos yn mynychu'r ysgol. Mae 1,014 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu ag 891 adeg yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2012.

Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 20.2%. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%. Mae un deg pump y cant o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd tua hanner y ffigur adeg yr arolygiad diwethaf. Mae un deg tri o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 5% o'r disgyblion. Mae tua 8% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae gan ryw 47% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan ryw 5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%.

Y gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryngwyn yn 2016-2017 yw £4,485. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gâr yw £5,432 a'r isafswm yw £3,584. Mae Ysgol Bryngwyn yn y chweched safle o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir Gâr o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi dysgu proffesiynol' ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill sy'n arloesi mewn dysgu proffesiynol i ddatblygu model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol.

Yn 2014, ffedereiddiodd yr ysgol ag Ysgol gyfagos Glan-y-Môr ym Mhorth Tywyn. Mae'r ysgolion yn rhannu pennaeth gweithredol, uwch dîm arweinyddiaeth a chorff llywodraethol cyffredin, ond mae ganddynt gyllidebau ar wahân a phennaeth ysgol ar gyfer pob safle.

Penodwyd pennaeth Ysgol Bryngwyn ym mis Medi 2010 a daeth yn bennaeth y ffederasiwn yn 2014. Dechreuodd y dirprwy bennaeth ar ei swydd yn Ysgol Bryngwyn yn Ionawr 2011 a daeth yn ddirprwy bennaeth y ffederasiwn ac yn bennaeth yr ysgol ym Mryngwyn yn 2014. Penodwyd pennaeth Ysgol Glan-y-Môr yn ddiweddar, a dechreuodd ar ei swydd ym mis Ebrill 2017. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys pum pennaeth cynorthwyol hefyd sy'n gweithio ar draws y ffederasiwn i raddau amrywiol.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol wedi bod yn gyson gryf dros y pedair blynedd ddiwethaf ac mae'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl o un cyfnod allweddol i'r nesaf
- Mae presenoldeb disgyblion uwchlaw deilliannau wedi'u modelu yn gyson
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac maent yn ddysgwyr brwdfrydig a gwydn
- Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus ac yn greadigol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ddisgyblion yn llawn
- Yn y rhan fwyaf o wersi, mae addysgu hynod effeithiol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf
- Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn rhagorol
- Mae diwylliant yr ysgol o ddathlu a gwobrwyo cyflawniad yn hynod lwyddiannus o ran ymgysylltu â disgyblion a'u rhieni
- Mae holl waith yr ysgol yn canolbwyntio'n fanwl ar alluogi pob disgybl unigol i gyflawni ei botensial

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr ar draws y ffederasiwn yn darparu cyfeiriad strategol rhagorol ar gyfer yr ysgol
- Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhannu gweledigaeth glir, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn ganolog i waith yr ysgol
- Mae corff llywodraethol y ffederasiwn yn darparu lefel gyson uchel o her a chymorth i'r ysgol
- Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y ffederasiwn wedi sicrhau gwelliannau rhagorol i safonau, profiadau dysgu, ac addysgu cynaledig o ansawdd uchel
- Mae gan yr ysgol ystod helaeth o bartneriaethau o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth
- Mae gan yr ysgol drefniadau eithriadol o gryf ar gyfer nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff addysgu a staff cymorth
- Mae'r ysgol yn arfarnu a rheoli ei gwariant cyllideb a dyrannu adnoddau yn eithriadol o drylwyr

## Argymhellion

A1 Gwella'r holl addysgu ac asesu i weddu i'r gorau yn yr ysgol

A2 Gwella ansawdd y cynllunio gwelliant adrannol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac yn arbennig yn 2016, mae perfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn gryf ac mae'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl o gyfnodau allweddol blaenorol, yn y prif ddangosyddion ac yn y rhan fwyaf o bynciau yng nghyfnod allweddol 4.

Yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn gyson gryf a gwelwyd gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn 2016. Mae'r perfformiad hwn wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am y pedair blynedd ddiwethaf ac roedd ymhell uwchlaw deilliannau yn 2016.

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella ac mae wedi bod ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu bob blwyddyn. Mae cyfran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill pum cymhwyster TGAU neu gyfwerth ar raddau A*-A wedi gwella ac wedi bod gryn dipyn yn uwch na'r gyfran mewn ysgolion tebyg ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 yn y rhan fwyaf o ddangosyddion wedi bod yn gryf dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n gyson well na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg.

Er gwaethaf gostyngiad yn 2016, ym mwyafrif y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Ni adawodd unrhyw ddisgyblion yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad cryf disgyblion yn y Gymraeg yn nodwedd nodedig. Mae bron pob disgybl yn astudio'r cwrs TGAU llawn yn Gymraeg ac mae eu perfformiad gryn dipyn yn well na pherfformiad cyfartalog disgyblion yn genedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros gyfnod ac wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mewn rhai gwersi hynod effeithiol, mae disgyblion yn cyflawni safonau eithriadol o uchel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hynod frwdfrydig sy'n ymgymryd yn llawn â'u hastudiaethau. Maent yn dal ati i ganolbwyntio'n dda ac yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau sy'n cael eu hastudio mewn gwersi ac yn galw i gof a chymhwyso dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd yn fedrus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus, annibynnol a chydweithredol. Dangosant wydnwch pan fyddant yn wynebu tasgau heriol, ac maent yn meddu ar ystod o fedrau sy'n eu galluogi i weithio'n llwyddiannus ar eu pen eu hunain. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol mewn parau a grwpiau hefyd, ac maent yn gefnogol iawn o ddysgu ei gilydd. Maent yn ystyriol a rhesymegol pan fydd gofyn iddynt ddatrys problemau ac yn defnyddio gwybodaeth flaenorol yn dda pan fyddant yn wynebu cyd-destunau anghyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir mewn ystod o ffurfiau, gan gynnwys llythyrau, cerddi ac adroddiadau. Maent yn strwythuro eu hysgrifennu yn gydlynus ac yn cyflwyno eu syniadau'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gymwys a chywir iawn ac maent yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig o ansawdd da. Mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu gyda rhuglder a soffistigeiddrwydd. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi yn aml.

Wrth ddarllen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion leoli a dethol gwybodaeth berthnasol o ystod o ffynonellau yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso ystod o strategaethau darllen yn dda ac yn defnyddio medrau lefel uwch rhesymu a dod i gasgliad yn hyderus, er enghraifft wrth ddadansoddi diben posteri propaganda o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac mae llawer ohonynt yn myfyrio'n ystyriol ar gyfraniadau disgyblion eraill. Mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau dosbarth ac yn esbonio eu safbwyntiau'n glir ar destunau fel y gymeriadaeth yn *Dracula* gan Bram Stoker a thrychineb Aber-fan. Defnyddiant derminoleg sy'n benodol i bwnc yn hyderus a dewisant eirfa ddethol i ddisgrifio eu syniadau.

Gall llawer o ddisgyblion adio, tynnu, rhannu a lluosi rhifau yn hyderus. Maent yn gweithio gyda degolion, ffracsiynau a chanrannau yn dda ac yn dangos eu cyfrifiadau'n glir. Mae gan lawer ohonynt fedrau mesur cadarn a gallant ddethol gwybodaeth yn gywir o graffiau a thablau, er enghraifft ar destunau fel y disgwyliad oes mewn gwahanol wledydd. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn anghywir wrth ddarlunio graffiau a diagramau.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn a defnyddiant ystod o feddalwedd yn bwrpasol ac yn hyderus, er enghraifft wrth ddadansoddi data gwaith maes mewn daearyddiaeth.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn ymgymryd â thasgau yn frwdfrydig. Dangosant ymddygiad eithriadol o dda mewn

gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywed y rhan fwyaf ohonynt fod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin iawn o fwlio.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf ac maent wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd ddiwethaf. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond fe wnaethant ostwng yn 2016. Mae absenoldeb parhaus wedi gostwng er 2013 ac mae bellach yn cyd-fynd â chyfraddau mewn ysgolion tebyg.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd gwersi, cyfnodau tiwtor a gwasanaethau yn brydlon. Maent yn hynod barchus tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniad eithriadol o gryf at ddylanwadu ar agweddau ar fywyd yr ysgol trwy waith grwpiau fel y cyngor ysgol a'r fforwm addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod â disgyblion o ysgolion cynradd lleol i helpu gwella trefniadau pontio. Mae cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol hefyd yn gysylltiedig â phob adran, ac fel rhan o'r rôl hon, maent yn rhannu eu safbwyntiau ar agweddau fel gwersi a marcio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal a phryder eithriadol o dda am bobl eraill. Er enghraifft, maent wedi cefnogi cangen leol Byddin yr Iachawdwriaeth am y 21 mlynedd ddiwethaf, ac yn ddiweddar, fe wnaethant gyfrannu gwerth bron i £5,000 o deganau ac arian iddynt eu dosbarthu i deuluoedd lleol. Yn ychwanegol, bob blwyddyn, maent yn dylunio a dosbarthu cardiau Nadolig i gartrefi nyrsio a'r hosbis leol. Mae yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ystod eang o weithgareddau elusennol a digwyddiadau cymunedol hefyd fel cystadlaethau siarad cyhoeddus, cerddoriaeth a choginio y Clwb Rotari. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n iach ac maent yn cymryd rhan yn dda mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff allgyrsiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd ac ehangder y profiadau dysgu yn gryfder sylweddol. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r holl ddisgyblion yn llawn. Caiff hyn effaith sylweddol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o opsiynau pwnc yng nghyfnod allweddol 4 gan gynnwys ystod a ddewiswyd yn ofalus o gymwysterau galwedigaethol. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac wedi'i deilwra'n agos i anghenion a diddordebau disgyblion, yn ogystal â rhai'r gymuned leol. Mae cynllunio creadigol a gofalus darpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn nodwedd eithriadol o dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang ac amrywiol o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr. Mae'r rhain yn cynnwys drama, cerddoriaeth, prosiectau amgylcheddol, Dreigiau Busnes Ifanc a Gwobr Dug Caeredin.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae'n darparu ystod eang o weithgareddau i ymestyn a herio'r disgyblion hyn. Mae hyn wedi bod yn hynod effeithiol o ran gosod targedau heriol a galluogi disgyblion i gyflawni deilliannau rhagorol.

Mae'r ysgol wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith. Ceir strategaethau datblygedig a chydlynus i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio ymyriadau hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion y mae eu medrau'n wannach. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar gymorth sydd wedi'i bersonoli'n ofalus ac fe gaiff eu datblygiad ei fonitro'n effeithiol. O ganlyniad, gwnânt gynnydd da. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gynlluniedig ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn eithriadol o dda. Mae hon yn nodwedd nodedig iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf iawn yn eu datblygiad ieithyddol. Mae disgyblion yn dysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy ystod eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, ceir rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau fel Eisteddfod yr ysgol a chyrsiau preswyl.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn hynod effeithiol. Mae wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus yn integreiddio'r themâu hyn mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol cysylltiedig hefyd, fel y prosiect natur coetiroedd a'r clwb garddio. Mae'r cyngor ysgol a'r clwb eco yn codi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol yn llwyddiannus.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae'r addysgu yn hynod effeithiol ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ddeilliannau rhagorol disgyblion. Caiff ei nodweddu gan frwdfrydedd, perthnasoedd gweithio cryf rhwng athrawon a disgyblion a dealltwriaeth gadarn o ddulliau addysgu effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o alluoedd disgyblion unigol, a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol iawn i deilwra gwersi i ymestyn a herio pob disgybl. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac maent yn cynllunio tasgau sydd wedi'u trefnu'n ofalus a heriol i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol. Defnyddiant adnoddau diddorol sy'n aml yn hynod greadigol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi esboniadau clir o gysyniadau a syniadau. Defnyddiant holi yn fedrus i herio disgyblion i ymestyn eu hymatebion llafar ac ysgrifenedig.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu cydbwysedd effeithiol o addysgu dosbarth cyfan a thasgau unigol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau cyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae lleiafrif o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh mewn gwersi hefyd, er enghraifft i fonitro cynnydd disgyblion mewn hanes neu ddarparu adborth sain effeithiol ar eu gwaith mewn TGCh.

Mae mwyafrif o athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn dangos lefel uchel o annibyniaeth a gwydnwch. Er enghraifft, mewn addysg gorfforol, mae athrawon yn rhoi cyfrifoldeb ar ddisgyblion i reoli ac arfarnu eu profion ffitrwydd eu hunain.

Yn y gwersi prin ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda, mae athrawon yn defnyddio technegau holi hynod effeithiol sy'n helpu disgyblion i lunio casgliadau a chanfod atebion i broblemau. Mae'r athrawon hyn yn addasu eu gwersi'n greadigol i fodloni anghenion eu disgyblion.

Mewn achosion prin iawn, nid yw gwersi'n bodloni anghenion disgyblion yn ddigon da. Nid ydynt yn cynnwys her ac nid yw gweithgareddau'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd digonol.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn agos a gwna ddefnydd effeithiol o'r system olrhain drylwyr i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio, a dathlu cyflawniad. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Mae'r ffordd y mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar o ansawdd uchel ar unwaith mewn gwersi yn gryfder arbennig. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyflym a chynaledig ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y safonau rhagorol a gyflawnir ganddynt. Mae adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth werthfawr am gynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol a gofalgar. Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad personoledig a roddir i ddisgyblion yn ganolog i waith yr ysgol, ac mae'n ffactor arwyddocaol o ran sicrhau safonau uchel, presenoldeb da a lefelau cryf o les.

Mae system gynhwysfawr ac aml-haenog i gefnogi anghenion amrywiol yr holl ddisgyblion. Mae staff ar bob lefel yn canolbwyntio ar ddatblygu'r holl ddisgyblion fel unigolion cyflawn ac yn helpu i ddarparu cymorth pwrpasol, o ansawdd uchel. Mae'r tîm bugeiliol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol ystod o ddisgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, cwnselwyr, y Tîm Cymorth Ymddygiad a gweithwyr ieuenctid.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a'u rhieni ynglŷn â dewisiadau pwnc ac opsiynau gyrfa disgyblion. Mae hyn yn paratoi disgyblion yn effeithiol iawn ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae pwyslais yr ysgol ar ddathlu a gwobrwyo cyflawniadau disgyblion yn nodwedd eithriadol o dda o'i gwaith. Mae system eang o deithiau, canmoliaethau a digwyddiadau gwobrwyo trwy gydol y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn cynnwys ac yn ennyn brwdfrydedd disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned mewn modd hynod effeithiol ac yn sicrhau bod ymgysylltiad disgyblion yn rhagorol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae gwasanaethau a sesiynau tiwtorial yn cynnig cyfleoedd cynhwysfawr ar gyfer myfyrio ac yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac yn gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau dysgu gwerth chweil ac fe gânt eu defnyddio'n dda gan athrawon. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ac effeithiol ar gyfer disgyblion mewn gwersi. Mae safon y trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn uchel iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ymrwymiad brwd i ddatblygiad pob disgybl unigol yn ganolog i waith yr ysgol. Mae'n canolbwyntio'n ddiflino ar werthfawrogi pob aelod o gymuned yr ysgol a rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i bawb. O ganlyniad, mae disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yn cyfleu ymdeimlad cryf o berthyn i'r ysgol a balchder dilys yn eu cyflawniadau ar y cyd. Mae arwyddair yr ysgol, sef 'yn rhoi o'n gorau er mwyn rhagoriaeth' ('giving our best to be the best'), yn cofnodi penderfyniad yr ysgol i gyflawni rhagoriaeth, ond mae hefyd yn mynegi ei ffocws ar gael pob unigolyn i roi o'i orau i gyflawni ei botensial.

Mae ethos o ofal a pharch yn treiddio trwy gymuned yr ysgol ac adlewyrchir hyn yn ymddygiad y staff a'r disgyblion, sy'n dangos cwrteisi a pharch ar y ddwy ochr. Mae'r ysgol yn gymuned gwbl gynhwysol ble caiff disgyblion yr un cyfle i elwa ar bob agwedd ar y cwricwlwm, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu.

Caiff yr adeiladau eu cynnal yn dda, ac maent o safon uchel iawn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r ffreutur yn rhy fach ar gyfer nifer y disgyblion.

Mae arddangosfeydd deniadol ac addysgiadol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion yn hynod effeithiol, ac yn cefnogi dysgu yn llwyddiannus hefyd. Ceir adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar draws yr holl bynciau, gan gynnwys offer TGCh. Ceir cyfleusterau o ansawdd arbennig o dda yn y canolfannau chwaraeon ac adeiladu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth ffederasiwn Ysgol Bryngwyn ac Ysgol Glan-y-Môr yn nodwedd ragorol sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at sicrhau safonau uchel iawn a lefelau cryf o les disgyblion. Mae wedi galluogi'r ddwy ysgol i wneud gwelliannau sylweddol a chyflym i lawer o agweddau ar eu darpariaeth. Mae uwch arweinwyr wedi bod yn hynod effeithiol yn cynllunio'r trosglwyddo i weithio fel ffederasiwn, ac maent wedi rheoli heriau sylweddol y broses hon yn eithriadol o dda.

Mae pennaeth y ffederasiwn yn darparu arweinyddiaeth ddynamig ac ysbrydoledig. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol sy'n canolbwyntio'n gryf ar wella

cyflawniad a lles pob disgybl unigol i'r eithaf. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n glir ac fe gaiff ei deall yn dda gan bob un o'r staff. Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n effeithiol gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y ffederasiwn. Ceir cydbwysedd da o ran rolau a chyfrifoldebau, ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau strategol y ddwy ysgol a'r ffederasiwn yn gyffredinol. Mae'r ffordd fedrus y cafodd rolau arwain ar draws y ffederasiwn eu datblygu a'u mireinio'n barhaus i wneud y defnydd gorau o gryfderau staff unigol yn nodwedd ragorol. Mae hyn wedi galluogi'r ddwy ysgol i ddatblygu'n gryf allu arweinwyr i wneud gwelliannau i lawer o feysydd gwaith y ffederasiwn.

Ar draws y ffederasiwn, ceir dull cyson a chadarn o reoli perfformiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, gosodir targedau gwella heriol ar gyfer staff ar bob lefel sy'n canolbwyntio'n agos ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Mae'r amcanion hyn wedi'u cysylltu'n glir ag anghenion datblygu staff unigol hefyd, yn ogystal â blaenoriaethau gwella cenedlaethol, y ffederasiwn a'r ysgol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn drylwyr, ac maent yn effeithiol o ran cynllunio gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n helpu staff i wneud cynnydd cryf tuag at y targedau hyn. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda iawn at welliannau sylweddol mewn safonau, lles a darpariaeth.

Un o gryfderau hynod nodedig y ffederasiwn yw lefel uchel y cydweithio rhwng staff ar draws y ddwy ysgol. Mae hyn wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus o ran eu galluogi i rannu arfer dda ac mae wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd y ddarpariaeth yn y ddwy ysgol.

Yn Ysgol Bryngwyn, mae arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn drylwyr. Mae cyfarfodydd rheolaidd y rheolwyr llinell yn canolbwyntio'n dda ar gynnydd disgyblion, a chaiff pwyntiau gweithredu eu nodi a'u holrhain yn effeithiol. Caiff tanberfformio ei herio yn drylwyr.

Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddata perfformiad. Mae eu dadansoddiad manwl o'r data hwn yn eu galluogi i gynllunio ymyriadau disgyblion ac addasiadau i ddarpariaeth yn effeithiol, sy'n cael effaith sylweddol ar safonau.

Mae'r ffordd y caiff y ffederasiwn ei lywodraethu yn gryfder sylweddol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o berfformiad y ddwy ysgol, ac maent yn darparu lefelau uchel o gymorth a her i'r ffederasiwn. Gwnânt gyfraniad effeithiol at brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant y ffederasiwn. Defnyddir profiad ac arbenigedd llywodraethwyr yn dda i gefnogi llawer o agweddau ar ddarpariaeth y ffederasiwn. Mae llywodraethwyr unigol yn gysylltiedig â meysydd pwnc ac agweddau penodol eraill ar ddarpariaeth yr ysgolion, ac mae hyn yn rhoi cymorth gwerthfawr i arweinwyr canol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn Ffederasiwn Bryngwyn-Glan-y-Môr wedi sicrhau gwelliannau rhagorol i safonau, profiadau dysgu, a lefelau uchel cynaledig o bresenoldeb yn Ysgol Glan-y-Môr. Cyflawnwyd y gwelliannau nodedig hyn tra'n cynnal safonau, gofal, cymorth ac arweiniad cyson gryf a datblygu addysgu rhagorol yn Ysgol Bryngwyn.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o ddata perfformiad yn effeithiol iawn. Mae'r dadansoddiadau hyn yn cyfrannu'n dda at adroddiadau hunanarfarnu gonest a thrylwyr y ddwy ysgol. Maent yn cynnal adolygiadau ysgol gyfan gwerthfawr o addysgu ac asesu ac arolygon o farn disgyblion a rhieni ar eu profiadau. Mae eu defnydd o dystiolaeth uniongyrchol, ynghyd ag adolygiadau allanol, yn rhoi dealltwriaeth gywir i uwch arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon yn graff i osod blaenoriaethau clir a chynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae adolygiadau ysgol gyfan o addysgu wedi arwain at gyfleoedd datblygiad proffesiynol cynhwysfawr sydd wedi'u cysylltu'n dda ag anghenion unigolion. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y ddwy ysgol.

Mae cynllun gwella'r ffederasiwn yn cofnodi prif flaenoriaethau gwella'r ddwy ysgol yn dda. Mae'n ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnal ffocws cryf ar bum nod strategol tymor hir y ffederasiwn yn llwyddiannus. Mae cynlluniau gwella unigol yr ysgolion yn amlinellu eu blaenoriaethau ac yn cysylltu'n dda â hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at yr amcanion hyn yn agos ac yn gwneud diwygiadau addas.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn defnyddio eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yn dda i gynllunio newidiadau i ddarpariaeth fel cynlluniau gwaith ac arferion asesu. Mae'r holl adroddiadau hunanarfarnu yn cysylltu'n dda â'u cynlluniau datblygu priodol. Fodd bynnag, nid yw rhai cynlluniau gwella adrannol yn ddigon manwl gywir ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â blaenoriaethau ysgol gyfan.

O ganlyniad i hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella hynod effeithiol a chyson, mae'r ffederasiwn wedi gwneud cynnydd eithriadol o dda o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygiadau blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd gweithio rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth a safonau.

Mae sefydlu ffederasiwn cryf a llwyddiannus gydag Ysgol Glan-y-Môr wedi bod yn werthfawr i'r ddwy ysgol. Maent wedi elwa'n sylweddol ar ddatblygiad proffesiynol a chynllunio dilyniant ar y cyd. Hefyd, mae amserlennu ar y cyd wedi galluogi'r ysgolion i ehangu ystod y pynciau sydd ar gael i ddisgyblion yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae'r cydweithio wedi cael dylanwad cryf a chadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol rôl arwyddocaol o ran arwain cydweithio llwyddiannus ag ysgolion a darparwyr eraill i ymestyn ystod y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod medrau disgyblion yn gweddu'n agos i'w diddordebau nhw ac anghenion cyflogwyr. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd trylwyr sy'n cynnwys yr holl bartneriaid yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau yn dda.

Mae'r arfer o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd eraill yn gryf iawn. Mae'n rhannu ei harbenigedd yn helaeth mewn cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a datblygu darpar arweinwyr canol ac uwch arweinwyr.

Mae partneriaethau ag ysgolion cynradd partner wedi'u sefydlu'n dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyfnod pontio bugeiliol ac academaidd llwyddiannus i'r ysgol uwchradd.  Mae partneriaethau â rhieni, cyflogwyr lleol a'r gymuned yn nodwedd nodedig hefyd.  Mynychodd dros fil o rieni ac aelodau'r gymuned seremoni wobrwyo'r ysgol yn ddiweddar.

**Rheoli adnoddau:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn hynod effeithiol.  Mae'n defnyddio staff addysgu a staff cymorth sydd â chymwysterau da yn fuddiol iawn i fodloni anghenion pob disgybl.

Mae gan yr ysgol drefniadau eithriadol o gryf ar gyfer nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol y staff addysgu a'r staff cymorth.  Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgorau sydd wedi cael effaith werthfawr ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.  Defnyddiwyd cysylltiadau buddiol ag Ysgol Glan-y-Môr yn dda iawn i ddatblygu arbenigedd staff mewn agweddau fel gwella presenoldeb ac i gynnig cyfleoedd arwain.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'i chyllideb, sy'n cael ei monitro'n drylwyr gan y pennaeth a'r rheolwr busnes.  Mae gan bwyllgor cyllid y corff llywodraethol rôl gref yn rheolaeth ariannol yr ysgol.  Mae'n sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda iawn â blaenoriaethau ar gyfer gwella a'u bod o fudd i'r disgyblion.

At ei gilydd, mae gwariant yr ysgol o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael effaith fuddiol ar berfformiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1

**6694054 - Bryngwyn School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 997 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (20%<PYD<=30%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 168 | 204 | 192 | 198 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 76.2 | 86.3 | 88.5 | 92.4 | 88.5 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 168 | 204 | 192 | 198 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 84.5 | 90.7 | 90.6 | 94.4 | 92.3 | 89.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 47.6 | 51.5 | 54.7 | 63.6 | 53.0 | 56.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | . | . | . | . | . | 92.0 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | . | . | . | . | . | 57.2 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 168 | 204 | 192 | 198 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 84.5 | 87.7 | 90.6 | 93.9 | 91.9 | 90.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 54.8 | 57.4 | 62.5 | 65.2 | 59.8 | 62.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 168 | 204 | 192 | 198 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 84.5 | 92.2 | 94.8 | 97.5 | 95.3 | 92.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 47.6 | 50.0 | 57.8 | 59.6 | 57.5 | 62.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 2 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6694054 - Bryngwyn School**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 997
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 20.2
Grŵp PYD 4 (20%<PYD<=30%)

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 210 | 180 | 176 | 197 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 56.2 | 57.8 | 58.5 | 68.5 | 58.0 | 60.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 77.1 | 85.0 | 86.4 | 86.3 | 86.4 | 83.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 94.3 | 97.8 | 97.7 | 100.0 | 98.9 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 56.2 | 57.8 | 58.0 | 69.0 | 56.0 | 57.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 344.1 | 359.9 | 362.7 | 370.0 | 355.3 | 344.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 339.6 | 352.6 | 356.7 | 365.4 | 349.8 | 340.3 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 18.1 | 16.1 | 23.3 | 21.8 | 12.0 | 15.8 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 62.4 | 73.9 | 65.9 | 74.1 | 66.6 | 69.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 63.3 | 61.7 | 65.3 | 74.6 | 67.6 | 66.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 88.6 | 92.2 | 93.8 | 98.5 | 89.0 | 82.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | * | 75.1 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6694054 - Bryngwyn School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 997 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (20%<PYD<=30%) |

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 40 | 26 | 33 | 34 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 25.0 | 34.6 | 33.3 | 26.5 | 38.5 | 35.5 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 55.0 | 57.7 | 69.7 | 58.8 | 74.2 | 70.9 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 82.5 | 84.6 | 97.0 | 100.0 | 97.7 | 92.1 |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 25.0 | 34.6 | 33.3 | 26.5 | 37.7 | 32.7 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 278.1 | 293.4 | 328.2 | 322.1 | 327.7 | 311.1 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 274.5 | 285.7 | 319.0 | 316.2 | 321.6 | 305.2 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 5.0 | 7.7 | 9.1 | 2.9 | 3.1 | 4.5 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 35.0 | 46.2 | 42.4 | 32.4 | 48.8 | 47.1 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 35.0 | 34.6 | 33.3 | 35.3 | 48.1 | 43.6 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 67.5 | 73.1 | 93.9 | 94.1 | 85.8 | 71.7 |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:**<br>**Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 50.9 |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 253 | 150 | 100 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 59% | 40% | 1% | 0% | |
| | | 44% | 51% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 252 | 74 | 152 | 24 | 2 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 29% | 60% | 10% | 1% | |
| | | 25% | 57% | 15% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 253 | 111 | 118 | 24 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 44% | 47% | 9% | 0% | |
| | | 38% | 52% | 9% | 2% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 252 | 50 | 168 | 30 | 4 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 20% | 67% | 12% | 2% | |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 253 | 125 | 118 | 9 | 1 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 49% | 47% | 4% | 0% | |
| | | 44% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 253 | 78 | 166 | 9 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 66% | 4% | 0% | |
| | | 32% | 61% | 6% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 251 | 124 | 121 | 5 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 49% | 48% | 2% | 0% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 250 | 57 | 128 | 57 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 23% | 51% | 23% | 3% | |
| | | 20% | 53% | 22% | 6% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 252 | 166 | 80 | 5 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 66% | 32% | 2% | 0% | |
| | | 45% | 46% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 252 | 20 | 157 | 68 | 7 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 8% | 62% | 27% | 3% | |
| | | 10% | 56% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 253 | 107 | 126 | 17 | 3 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 42% | 50% | 7% | 1% | |
| | | 28% | 50% | 17% | 5% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 250 | 51<br>20% | 153<br>61% | 41<br>16% | 5<br>2% | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 53% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 251 | 114<br>45% | 126<br>50% | 11<br>4% | 0<br>0% | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 35% | 59% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 253 | 115<br>45% | 117<br>46% | 19<br>8% | 2<br>1% | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 35% | 53% | 10% | 2% | |
| The staff respect me and my background | 251 | 130<br>52% | 114<br>45% | 6<br>2% | 1<br>0% | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 37% | 53% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 249 | 113<br>45% | 131<br>53% | 5<br>2% | 0<br>0% | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 55% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 101 | 36<br>36% | 48<br>48% | 16<br>16% | 1<br>1% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 51% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 5 | 0<br>0% | 5<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 253 | 126 | 116 | 9 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 46% | 4% | 1% | | |
| | | 43% | 50% | 5% | 2% | | |
| My child likes this school. | 253 | 129 | 111 | 9 | 4 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 51% | 44% | 4% | 2% | | |
| | | 46% | 48% | 5% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 251 | 136 | 107 | 7 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 54% | 43% | 3% | 0% | | |
| | | 51% | 45% | 4% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 253 | 130 | 109 | 8 | 2 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 43% | 3% | 1% | | |
| | | 45% | 49% | 5% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 251 | 49 | 135 | 23 | 13 | 31 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 9% | 5% | | |
| | | 24% | 60% | 13% | 4% | | |
| Teaching is good. | 251 | 103 | 133 | 4 | 0 | 11 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 41% | 53% | 2% | 0% | | |
| | | 34% | 59% | 6% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 252 | 137 | 108 | 3 | 2 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 54% | 43% | 1% | 1% | | |
| | | 50% | 46% | 3% | 1% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 253 | 85 | 126 | 19 | 10 | 13 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 34% | 50% | 8% | 4% | | |
| | | 31% | 56% | 10% | 3% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 250 | 98 | 117 | 14 | 8 | 13 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 39% | 47% | 6% | 3% | | |
| | | 35% | 52% | 10% | 3% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 252 | 88 | 117 | 18 | 2 | 27 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 35% | 46% | 7% | 1% | | |
| | | 35% | 56% | 8% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 252 | 116 | 118 | 6 | 5 | 7 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 46% | 47% | 2% | 2% | | |
| | | 42% | 53% | 4% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 242 | 83 | 109 | 17 | 3 | 30 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 34% | 45% | 7% | 1% | | |
| | | 36% | 52% | 9% | 3% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 250 | 110 | 107 | 29 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 43% | 12% | 1% | | |
| | | 34% | 51% | 13% | 3% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 253 | 122 | 109 | 10 | 5 | 7 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 48% | 43% | 4% | 2% | | |
| | | 42% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 252 | 88 | 117 | 25 | 4 | 18 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 35% | 46% | 10% | 2% | | |
| | | 30% | 55% | 12% | 3% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 250 | 100 | 124 | 15 | 1 | 10 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 40% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 37% | 56% | 6% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 246 | 81 | 98 | 18 | 5 | 44 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 40% | 7% | 2% | | |
| | | 32% | 55% | 11% | 3% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 250 | 103 | 101 | 30 | 6 | 10 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 41% | 40% | 12% | 2% | | |
| | | 36% | 52% | 10% | 2% | | |
| The school is well run. | 251 | 115 | 113 | 7 | 4 | 12 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 46% | 45% | 3% | 2% | | |
| | | 42% | 50% | 6% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Lowri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Farrukh Khan | Arolygydd Tîm |
| William Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Steven William Pringle | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Mamta Arnott | Arolygydd Tîm |
| Jayne Elizabeth Edwards | Arolygydd Tîm |
| Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |
| Peter Trevor Lewis | Arolygydd Lleyg |
| James Taylor | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dave Williams | Enwebai |

.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

**Termau cyfnod allweddol 3**

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 3 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 7 yn bennaf).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg [1]
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 6 neu uwch.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 5) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Termau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth**

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys naw ysgol arall y mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw mewn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C. |

[1] Nid yw'r dangosydd hwn yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

| | |
|---|---|
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg[1] neu Saesneg a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu pum cymhwyster TGAU graddau A* i C neu gyfwerth. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A*-E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hyn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i chapio | Mae hyn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Grwpiau meincnodi | Caiff ysgolion eu rhoi mewn grwpiau gyda’i gilydd yn unol â chyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn cymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg mewn dangosyddion gwahanol. |
| Deilliannau wedi’u modelu | Rhagfynegiad o berfformiad cymedrig ysgol yw hyn, yn seiliedig ar y berthynas ystadegol rhwng cyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dangosydd penodol. |